**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Panel Craffu Perfformiad - Addysg

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Iau, 15 Mehefin 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| B Hopkins | Y V Jardine | J D McGettrick |
| F D O'Brien | A J O'Connor | R V Smith |

| **Aelod Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** | Aelod Cyfetholedig |
|---|---|---|
| Beth Allender | | |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm ar gyfer Strategaeth Addysg |
| Rhodri Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Kate Phillips | Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr sy'n Agored i Niwed |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A Davis, A M Day, S M Jones, S Joy ac S E Keeton

---

## 65 Cadarnhau'r Cynullydd

Cadarnhawyd mai'r Cynghorydd Lyndon Jones fyddai Cynullydd y Panel ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

## 66 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd y Cynghorydd Lyndon Jones gysylltiad personol ag eitem 12.

## 67 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau’r Pleidiau

Dim

## 68 Cofnodion

Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod ar 11 Mai 2023.

69 **Llythyr(au)**

Nodwyd y llythyr at Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu.

70 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

71 **Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol – Diweddariad (eitem briff gwylio)**

Diolchodd y Panel i'r Pennaeth Dysgwyr Diamddiffyn am fod yn bresennol a rhoi'r diweddariad ynghylch Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Clywodd y Panel fod y strategaeth ADYTA wedi cael ei hadolygu a'i chwblhau, a drafftiwyd strategaeth newydd sy'n cyd-fynd â'r strategaeth ranbarthol a throsglwyddir y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau i'r strategaeth newydd. Mae bellach yn cynnwys y cyfnod rhwng 2022 a 2027 ac mae'n cynnwys 4 maes blaenoriaeth:

- Ysgolion
- Ôl-16
- Cydweithio; a'r
- Blynyddoedd cynnar

Clywodd y Panel hefyd am y llwyddiannau a'r heriau a brofir. Nododd y Panel, er gwaethaf dymuniad Llywodraeth Cymru i sefydlu system sy'n llai gwrthwynebol, bod y cyngor wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau am dribiwnlysoedd a bod hyn wedi rhoi pwysau ar wasanaethau ac wedi tynnu sylw at yr angen i gynnal adolygiad mewnol i brosesau a gweithdrefnau i sicrhau bod lefel briodol o adnoddau ar gael.

Roedd y Panel yn falch o glywed y gwneir gwaith helaeth i gymedroli, sicrhau ansawdd a chefnogi ysgolion er mwyn sicrhau bod cynnig cyson a theg i bob dysgwr. Mae'r gwaith hwnnw ar cyd â'r bwrdd iechyd lleol hefyd yn cryfhau, ac yn sicrhau eu bod yn meithrin partneriaeth gynhyrchiol.

Gofynnodd y Panel am addysg ôl-16 ac a ydym yn sicrhau bod y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau'n cyflawni eu rolau'n effeithiol. Clywodd y Panel ein bod yn gweithio gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i sicrhau eu bod mor gryf ag y gallant fod er mwyn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol ac rydym yn gwneud hyn mewn modd cydlynol.

Cytunodd y Panel fod diwygio ADY yn broses barhaus a byddant yn parhau i gadw golwg ar gynnydd.

72 **Cwricwlwm Newydd i Gymru - Llafar (eitem briff gwylio)**

Diolchodd y Panel i Bennaeth y Gwasanaethau Cyflawniad a Phartneriaeth am yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ynghylch y cynnydd wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Dywedodd Aelod y Cabinet ei fod yn ddarn o waith sy'n datblygu a'i fod yn falch iawn o'r ffordd yr oedd yn datblygu.

Clywodd y Panel fod cynifer o wahanol bethau i weithio arnynt, ond ei bod yn stori gadarnhaol y mae'n rhaid i ni ei hadrodd yma yn Abertawe. Dywedwyd wrth y Panel fod Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod dylunio'r cwricwlwm yn broses gylchol barhaus o ymgysylltu, dylunio, cynllunio, hyfforddi a gwerthuso, ac mae hyn yn rhywbeth sy'n parhau gyda ni yma yn Abertawe. Cydnabuwyd hefyd ei fod yn broses ailadroddol gan fod cwricwlwm pob ysgol yn parhau i esblygu i ddiwallu anghenion ei dysgwyr.

Clywodd y Panel am rai o'r camau nesaf i'w gweithredu, gan gynnwys y canlynol:

- Bydd y Tîm Gwella Ysgolion yn canolbwyntio ar sicrhau effeithiolrwydd cynlluniau cwricwlwm ysgolion. Cefnogi ysgolion i sicrhau eu bod yn gallu diffinio sut y byddant yn mesur cynnydd disgyblion ac yn darparu'r dull fesul cam o ddysgu proffesiynol fel y gall ysgolion gael mynediad at gymorth yn deg a phan fydd ei angen arnynt.
- Sicrhau'r cyllid gorau posib i gefnogi meysydd allweddol, fel y fframwaith rhifedd a chymhwysedd digidol.
- Sicrhau cefnogaeth ychwanegol i gyflawni cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg.
- Hyrwyddo a rhannu arfer effeithiol drwy gyfarfodydd penaethiaid.
- Cryfhau ein ffocws gyda'n cydweithwyr uwchradd i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt wrth iddynt baratoi ar gyfer y cwricwlwm i Gymru.

Gofynnodd y Panel a oedd staff addysgu'n cael digon o gefnogaeth ac a ydym yn mynd â'r holl staff ar y daith gyda ni. Clywsant mai dyma'r achos ac rydym yn gweld arweinyddiaeth ddosbarthol ar lawr gwlad ar draws ein hysgolion. Felly, nid penaethiaid ac aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth yn unig sy'n llywio'r gwaith hwn. Rydym yn gweld datblygiad timau o fewn yr ysgolion sy'n ei lywio. Pan fyddwn yn ymweld â'n hysgolion i gael diweddariadau, rydym hefyd yn chwilio am arfer gorau i'w rannu ac nid ydym yn trafod â'r pennaeth yn unig. Rydyn ni'n clywed gan y staff ar lawr gwlad am sut maen nhw wedi bod yn cydweithio.

Gofynnodd y Panel am y llwyth gwaith, yn enwedig pan fydd yn cynnwys pwysau gwaith a chynorthwyo ysgolion eraill ar draws clystyrau. Clywyd bod digon o drafodaethau cenedlaethol wedi bod, ond ein bod ni hefyd yn edrych ar hyn ar lefel leol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n hysgolion i edrych ar y baich hwnnw ac i ystyried yr hyn y gallwn ni fel awdurdod lleol ei wneud i gefnogi ein hysgolion yn y maes hwnnw. Mae'r pwnc o rannu'n bwysig iawn ac yn y clystyrau cryf, rydym yn gweld hynny. Mae gweithio fel clwstwr yn golygu bod pawb yn defnyddio'r hyn a weithiodd ym maes arall, gan edrych ar sut y bydd hynny'n gweithio yn eu hysgolion eu hunain etc., yn hytrach na bod pawb yn ceisio gwneud popeth.

73 **Arolygiad Addysg Estyn - Rhoi argymhellion ar waith**

Diolchodd y Panel i Reolwr y Tîm Strategaeth Addysg am amlinellu'r cynnydd gyda'r ddau argymhelliad a wnaed yn dilyn arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg y

Llywodraeth Leol yn Abertawe ym mis Mehefin 2022. Clywodd y panel y gwnaed cynnydd yn y meysydd canlynol:

*Argymhelliad 1 - Adolygu darpariaeth ôl-16 i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr.*

- Mae strategaeth ôl-16 tair blynedd bellach ar waith ar gyfer Abertawe
- Datblygwyd memorandwm o ddealltwriaeth ar gyfer pontio llwyddiannus i'r holl ymadawyr ysgol
- Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r holl benaethiaid ynghylch sicrhau bod disgyblion y chweched dosbarth yn cael mynediad i'r ddarpariaeth fwyaf addas ar eu cyfer.
- Cynhaliwyd arolwg llais y dysgwyr helaeth
- Archwiliwyd cyfleoedd ar gyfer modelau ar-lein/hybrid o gyflwyno'r cwricwlwm ôl-16
- Cynhaliwyd gweithgareddau dysgu proffesiynol ar y cyd â Choleg Gŵyr ac ysgolion sydd â chweched dosbarth
- Dyrannwyd cyllid pontio i ysgolion sydd â chweched dosbarth i sicrhau cydweithrediad
- Mae Academi Seren yn parhau i ddarparu sesiynau a chyfleoedd
- Datblygwyd partneriaeth rhwng sawl sefydliad addysg yn Ne Cymru o'r enw Ymestyn yn Ehangach gyda'r nod o godi dyheadau ar gyfer pobl ifanc
- Mae gwaith i gefnogi anghenion sgiliau fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe'n parhau a'r cam nesaf yw mapio llwybrau dilyniant trwy faes targed o ddarpariaeth iechyd a lles a gynigir ar gyfer plant cyn 16, ôl-16 a thu hwnt.

*Argymhelliad 2 – Cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob oedran ac ardal o'r awdurdod lleol.*

- Cymeradwywyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) gan Lywodraeth Cymru a lluniwyd cynllun cyflawni sy'n amlinellu'r ffrydiau gwaith allweddol. Mae'r cynnydd gyda'r cynllun yn cael ei fonitro'n agos a bydd yr adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023.
- Cynhelir trafodaethau ar flaenoriaethau allweddol yn rheolaidd gyda Phartneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe.
- Ers mabwysiadu'r CSGA, archwiliwyd opsiynau ar gyfer cynyddu tegwch y cynnig gofal plant a darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r peilot sy'n digwydd ar gyfer hwyrddyfodiaid cynradd yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd hon.
- Mae taith Siarter Iaith ysgolion Abertawe'n parhau i symud yn ei blaen wrth i nifer o ysgolion dderbyn achrediadau efydd, arian ac aur.
- Ychwanegir gwybodaeth ychwanegol at wefan y cyngor ynghylch manteision addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae clystyrau cyfrwng Cymraeg wedi bod yn cydweithio â'r cyngor i nodi modelau posib ar gyfer darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.
- Codwyd penodi staff sy'n siarad Cymraeg fel her sylweddol ym mhob maes blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, staff addysgu, staff cefnogi a staff ag arbenigedd ADY.

74 **Materion allweddol sy'n effeithio ar addysg 2023/24 - Llafar**

Diolchodd y Panel i'r Cyfarwyddwr Addysg am ei chyflwyniad, a oedd yn amlinellu rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar addysg yn Abertawe 2023/2024. Bu'n trafod wyth maes mater allweddol, gan gynnwys:

1. Dileu rhwystrau i ddysgu
2. Rhoi'r cwricwlwm ar waith
3. Addysg gynhwysol
4. Rheoli adnoddau
5. Arweinyddiaeth ysgol
6. Perfformiad ysgolion
7. Dysgu yn y gymuned
8. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd.

Cytunodd y Panel fod dyheadau'n hanfodol i blant a phobl ifanc ac roedd hefyd yn falch o glywed bod ysgolion yn adeiladu ar eu perthnasoedd â chyflogwyr i helpu pobl ifanc i ddeall a chael eu hysbrydoli gan y byd gwaith.

Mae cynllun gwaith y Panel wedi'i gynllunio i adlewyrchu'r materion allweddol hyn lle bo hynny'n bosib.

75 **Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer 2023/24 i'w thrafod**

Cytunodd y Panel ar y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2023/2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.35pm

**Cadeirydd**